

CBAC Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Uned 5: Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i
gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol,
a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

I'w asesu gyntaf o 2024

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Mewnol)

Fersiwn 3 - Ionawr 2024



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen/tudalennau
2	Ychwanegu'r gair 'Amlinelliad' yn Nhasg 1 (b).	3, 10
	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr wedi'u diweddarau i adlewyrchu fformat yr asesiad byw	1 a 2
2b	'Disodlwyd y term 'sydd mewn perygl' gan 'sy'n wynebu risg' er mwyn eglurder drwy'r fanyleb, gan gynnwys teitl Uned 5.	Drwy'r DAE
3	Diweddarwyd datganiadau Taflen Farciau'r Ganolfan.	18

Cynnwys

	Tudalen
Asesiad	1
Cynllun marcio	7
Mapio	19



LEFEL 3

4973N5

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL
(ASESIAD DI-ARHOLIAD MEWNOL)**

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

**UNED 5 Aseiad Di-arholiad: Cefnogi unigolion sy'n
wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n
dymuno eu cael**

15 AWR

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

BYDD GENNYCH CHI GYFANSWM O 15 AWR I GWBLHAU'R ASESIAD HWN.

Rhaid i chi ddewis un astudiaeth achos (**A** neu **B**) i ddarparu eich tystiolaeth ar gyfer Tasg 1 a Tasg 2.

Rhaid defnyddio'r un astudiaeth achos ar gyfer y ddwy dasg.

Tasg 1

Mae angen i chi baratoi nodiadau achos cyfredol yn seiliedig ar naill ai astudiaeth achos **A** neu astudiaeth achos **B**. Rhaid i'ch nodiadau achos fod yn seiliedig ar gefnogi unigolion sy'n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael.

Dylech chi dreulio tua **10 awr** ar y dasg hon.

Gallwch chi ddefnyddio'r adnoddau canlynol wrth gwblhau'r dasg hon:

- meddalwedd TGCh
- astudiaethau achos
- nodiadau dosbarth. Dylai'r rhain gynnwys uchafswm o 6 ochr papur A4. Gallwch chi ysgrifennu'r rhain â llaw neu ar brosesydd geiriau. Dylen nhw fod yn eich geiriau eich hun ac ni allwch gynnwys atebion wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw. Eich athro/aseswr sy'n gyfrifol am adolygu'r nodiadau i sicrhau eu bod nhw o fewn y canllawiau uchod.

Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau sy'n cael eu defnyddio yn ystod yr aseiad.

Ni allwch ddefnyddio'r rhyngwyd wrth gwblhau'r dasg hon.

Tasg 2

Mae angen i chi gynhyrchu gwybodaeth fydd yn cyfrannu at gynllun gofal a chymorth personol yn seiliedig ar astudiaeth achos **A** neu astudiaeth achos **B**. Mae'n rhaid i'ch nodiadau achos fod yn seiliedig ar gefnogi unigolion sy'n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael.

Dylech chi dreulio tua **5 awr** ar y dasg hon.

Gallwch chi ddefnyddio'r adnoddau canlynol wrth gwblhau'r dasg hon:

- meddalwedd TGCh
- astudiaethau achos
- nodiadau dosbarth. Dylai'r rhain gynnwys uchafswm o 6 ochr papur A4. Gallwch chi ysgrifennu'r rhain â llaw neu ar brosesydd geiriau. Dylen nhw fod yn eich geiriau eich hun ac ni allwch gynnwys atebion wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw. Eich athro/aseswr sy'n gyfrifol am adolygu'r nodiadau er mwyn sicrhau eu bod nhw o fewn y canllawiau uchod.

Gallwch chi ddefnyddio'r rhyngwyd wrth gwblhau'r dasg hon.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae eich athro'n gallu eich helpu i ddeall y briffiau aseiniad a'r tasgau, ond mae rheolau am y math o gymorth a faint o gymorth mae eich athro'n gallu ei roi i chi. Dylech siarad â'ch athro os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â beth rydych chi'n cael ei wneud a ddim yn cael ei wneud wrth gwblhau'r tasgau; bydd yr athro yn gwybod faint o gymorth mae'n gallu ei roi i chi.

Mae'n bwysig eich bod chi'n gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith chi eich hun yn unig yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu. Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai eich gwaith chi eich hun yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Dylech chi wirio eich gwaith yn ofalus i wneud yn siŵr ei fod yn fanwl gywir.

Cyflwyniad i'r asesiad

Drwy'r asesiad hwn, byddwch chi'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rydych chi wedi'u cael drwy gwblhau Uned 5: Cefnogi unigolion sy'n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael. Byddwch chi hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych chi wedi'u cael drwy gwblhau Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes.

Rhaid i chi seilio eich ymatebion ar y proffil canlynol o unigolyn sy'n wynebu risg.

Proffil

Mae PB wedi bod yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant ers llawer o flynyddoedd ac mae wedi cael ei gefnogi gan amrywiaeth eang o weithwyr a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Cafodd ei fabwysiadu'n 2 oed ar ôl cael ei gam-drin yn gorfforol yn y cartref. Roedd ei fam fiolegol yn gaeth i gyffuriau a bu farw ei dad biolegol pan oedd yn ifanc iawn. Dechreuodd ei fam fiolegol berthynas newydd â dyn a oedd yn cam-drin PB yn gorfforol.

Erbyn iddo gyrraedd 11 oed, dechreuodd PB gamymddwyn gartref ac yn yr ysgol. Dechreuodd gollu ysgol a chyflawni mân-droseddau a dwyn o siopau. Nid oedd ei rieni mabwysiadol yn gwybod sut i reoli eu mab a'i gefnogi. Ers hynny, mae PB wedi dweud ei fod wedi cael ei gosbi gartref a bod y cosbau hyn wedi mynd yn fwyfwy llym dros amser. Mewn ymateb, aeth PB yn ofidus ac yn ymosodol iawn, a gwaethygodd ei ymddygiad ymhellach.

Pan oedd yn 15 oed, cafodd PB ddedfryd o garchar mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Roedd PB wedi dwyn sawl peth o'r cartref teuluol, gan gynnwys eiddo personol a gemwaith. Cafodd weithiwr cymdeithasol benywaidd ei neilltuo i weithio gyda PB oherwydd y gred oedd y byddai hyn o fudd i PB ac yn ei helpu i deimlo llai o fygythiad. Yn ystod y cyfnod hwn, dechreuodd PB ddefnyddio iaith hiliol. Pan gafodd ei holi am hyn, dywedodd PB wrth ei weithiwr cymdeithasol ei fod wedi clywed gweithwyr cymorth yn gwneud sylwadau tebyg a'i fod yn credu bod hyn yn dderbyniol.

Pan oedd yn 16 oed, cafodd PB ei ryddhau ar drwydded a'i ddychwelyd i gartref ei rieni mabwysiadol. Helpodd rhieni PB ef pan gafodd ei ryddhau, gyda chefnogaeth gan y tîm troseddau ieuencid, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector, i gael lleoliad gwaith di-dâl. Erbyn hyn mae PB yn 17 oed a, gyda chefnogaeth Tîm Amlddisgyblaethol, gan gynnwys ei weithiwr cymdeithasol, seiciatrydd, a chwmselydd, mae wedi prosesu'r digwyddiadau yn ei orffennol ac mae'n deall sut maent wedi cyfrannu at ei sefyllfa bresennol. Mae wedi cwblhau'r lleoliad gwaith di-dâl ac mae'n gobeithio cael lle ar brentisiaeth cerbydau modur mewn coleg addysg bellach lleol. Ar hyn o bryd, mae'n byw mewn llety byw â chefnogaeth, ac yn cael ei helpu gan staff byw â chefnogaeth i feithrin ei sgiliau byw'n annibynnol. Hoffai PB symud i mewn i dŷ cymdeithasol, ond mae gan ei weithiwr cymdeithasol bryderon o hyd ynglŷn â'i allu i ymdopi a rheoli tenantiaeth. Nid yw mewn cysylltiad â'i fam fiolegol na'i rieni mabwysiadol ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae wedi mynegi diddordeb mewn cysylltu â nhw yn y dyfodol.

Uned 5 – Tasgau

Tasg 1

Rydych chi'n weithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant sy'n cefnogi'r gweithiwr cymdeithasol sydd wedi bod yn gweithio gyda PB ers blynyddoedd lawer. Mae hi wedi gofyn i chi baratoi nodiadau achos cyfredol wrth i PB bontio i'r cyfnod nesaf yn ei fywyd. Bydd angen i chi gyflwyno eich nodiadau achos i gydweithwyr yn y tîm amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau proses bontio lwyddiannus a galluogi canlyniadau cadarnhaol.

Cofnod o ryngweithiadau, arsylwadau a gweithredoedd yw nodiadau achos, ac maent yn gofnod manwl penodol o wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw unigolyn penodol. Eu nod yw cofnodi gwybodaeth fanwl a helpu i'w throsglwyddo i'r gweithiwr cymdeithasol nesaf, a chânt eu defnyddio i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill a all fod yn rhan o achos unigolyn.

Dylai eich nodiadau achos fod ar ffurf cyflwyniad gyda nodiadau ategol i ddangos tystiolaeth o'r canlynol yn glir:

- (a) Esboniad o'r ffactorau a gyfrannodd at risg unigolyn o ddiodeff cam-drin ac esgeuluso yn y gorffennol. [20 marc]
- (b) Amlinellwch risgiau presennol o gam-drin ac esgeuluso y bydd angen eu cyfleu i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r tîm amlddisgyblaethol. [5 marc]
- (c) Disgrifiad o ffactorau perthnasol a all fod wedi effeithio ar hawliau'r unigolion sy'n wynebu risg wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gorffennol. Byddwch yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â hawliau unigolion, a gawsoch drwy gwblhau *Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rychwant oes.* [10 marc]
- (ch) Esboniad o'r ffactorau perthnasol presennol a all effeithio ar allu'r unigolyn i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol. [13 marc]
- (d) Awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gall y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol **a nodwyd yn y proffil**, a'r gwasanaeth a gaiff eu darparu ganddynt, hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer yr unigolyn sy'n wynebu risg. [18 marc]

Cyfanswm Marciau [66 marc]

Tasg 2

Fel unigolyn sy'n wynebu risg mawr, mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol yn diogelu ac yn amddiffyn yr unigolyn sy'n wynebu risg. Er mwyn gwneud hyn, a chefnogi PB i symud ymlaen yn llwyddiannus, bydd angen i chi lunio gwybodaeth i'w chyfrannu at gynllun gofal a chymorth personol er mwyn ei helpu drwy'r cyfnod pontio a hwyluso canlyniadau llwyddiannus.

Rhaid i'r wybodaeth gynnwys:

- (a) Archwiliad o'r ffordd y mae deddfwriaeth a chodau ymddygiad/ymarfer **perthnasol** yn diogelu ac yn amddiffyn yr unigolyn sy'n wynebu risg. [16 marc]
- (b) Aseiad o'r ffordd y gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol ddiogelu unigolion a'r ffordd y gellir defnyddio dulliau i sicrhau hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg. [18 marc]

Cyfanswm Marciau [34 marc]

Gallwch ddewis sut i gyflwyno'r wybodaeth, a gall hynny fod ar ffurf tabl.

Dylech dreulio tua **5 awr** yn cwblhau'r dasg hon.

Cyfanswm Marciau (Tasg 1 a Thasg 2): [100 marc]

Gwybodaeth i ymgeiswyr

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi cael ei haddasu o ddogfen *JCQ Information for candidates – non-examination assessments*¹. Mae'n rhoi gwybod i chi am rai pethau y mae'n **rhaid** i chi eu gwneud ac y mae'n **rhaid i chi beidio** â'u gwneud wrth i chi gwblhau eich asesiad. Os nad ydych yn deall rhywbeth, **rhaid** i chi ofyn i'ch athro.

Paratoi eich gwaith

- Os byddwch yn derbyn cymorth ac arweiniad gan unrhyw un heblaw eich athro, **rhaid** i chi ddweud wrth eich athro a bydd yntau wedyn yn cofnodi natur y cymorth a roddwyd i chi.
- Os buoch chi'n gweithio fel rhan o grŵp ar aseiniad, er enghraifft, yn cynnal ymchwil maes, **rhaid** i bob un ohonoch chi ysgrifennu eich cyfrif eich hun o'r aseiniad. Hyd yn oed os yw'r data sydd gennych chi yr un fath, **rhaid** i chi ddisgrifio yn eich geiriau eich hun sut cafwyd y data hynny a **rhaid i chi ddod i'ch casgliadau eich hun am y data yn annibynnol**.
- Cymerwch ofal o'ch gwaith a'i gadw'n ddiogel. **Peidiwch** â'i adael o gwmpas lle gall eich cyd-ddisgyblion ddod o hyd iddo neu ei rannu ag unrhyw un, gan gynnwys ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. **Rhaid** i chi bob amser gadw eich gwaith yn ddiogel ac yn gyfrinachol wrth i chi ei baratoi; **peidiwch** â'i rannu â'ch cyd-ddisgyblion. Os byddwch yn ei gadw ar rwydwaith cyfrifiadurol, cadwch eich cyfrinair yn ddiogel. Casglwch yr holl gopiâu o'r peiriant argraffu a dinistriwch y rheini nad oes eu hangen arnoch.
- **Peidiwch** â chael eich temptio i ddefnyddio atebion ar-lein wedi'u paratoi ymlaen llaw – twyllo yw hyn. Gall offer electronig sy'n cael eu defnyddio gan CBAC ganfod y math hwn o gopïo.
- **Ni ddylech** ysgrifennu deunydd amhriodol, anwedus na sarhaus.

Llên-ladrad

Llên-ladrad yw cymryd geiriau, barn neu syniadau rhywun arall a cheisio honni mai eich gwaith chi ydyw. **Mae'n fath o dwyllo ac mae'n cael ei gymryd o ddifrif. Peidiwch** â meddwl na fyddwch chi'n cael eich dal; mae sawl ffordd o ganfod llên-ladrad:

- gall marcwyr sylwi ar newidiadau yn arddull yr ysgrifennu a'r defnydd o iaith
- mae marcwyr yn arbenigwyr pwnc hynod brofiadol – efallai y byddant wedi darllen y ffynhonnell rydych yn ei defnyddio, neu hyd yn oed wedi marcio'r gwaith rydych wedi copïo ohono
- gellir defnyddio peiriannau chwilio'r rhyngwryd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol i gysylltu ymadroddion neu ddarnau o destun â ffynonellau gwreiddiol ac i ganfod newidiadau mewn gramadeg ac yn arddull yr ysgrifennu neu'r atalnodi.

Cosbau am dorri'r rheoliadau

Os gwelir eich bod chi wedi torri'r rheoliadau, byddwch chi'n cael eich cosbi gan ddefnyddio un o'r cosbau canlynol:

- bydd y darn o waith yn cael sero o farciau
- byddwch chi'n cael eich gwahardd o'r asesiad hwnnw ar gyfer y gyfres arholiadau/cymedroli dan sylw
- byddwch chi'n cael eich gwahardd o'r cymhwyster cyfan ar gyfer y gyfres arholiadau/cymedroli honno
- byddwch chi'n cael eich gwahardd o bob cymhwyster a'ch rhwystro rhag ailgofrestru am gyfnod o amser.

CBAC fydd yn penderfynu pa gosb sy'n briodol.

COFIWCH – EICH CYMHWYSTER CHI YDYW FELLY RHAID MAI EICH GWAITH CHI YDYW.

¹ https://www.jcq.org.uk/wp-content/uploads/2021/08/IFC-NE_Assessments_2021_v4.pdf
© WJEC CBAC Cyf.



CYNLLUN MARCIO

I'W DDEFNYDDIO GYDA DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

LEFEL 3

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU – UNED 5

4973N5

Cynllun marcio wedi'i gwtogi yw hwn. Mae'r fersiwn cyflawn gyda'r cynnwys dangosol yn rhan ohono i'w gael ar wefan ddiogel CBAC [CBAC \(wjecservices.co.uk\)](http://wjecservices.co.uk)

Gwybodaeth i aseswyr am ddefnyddio cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylech ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd yn gyntaf er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodi, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylech edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylech symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylech dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Wedi i'r band gael ei benderfynu, gallwch bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gallwch ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd o safon uwch, is neu debyg i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnol

Os oes mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy wefan ddiogel CBAC ar ddiwrnod y canlyniadau.

Tasg 1

Rydych chi'n weithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant sy'n cefnogi'r gweithiwr cymdeithasol sydd wedi bod yn gweithio gyda PB ers blynyddoedd lawer. Mae hi wedi gofyn i chi baratoi nodiadau achos cyfredol wrth i PB drawsnewid i'r cyfnod nesaf yn ei fywyd. Bydd angen i chi gyflwyno eich nodiadau achos i gydweithwyr yn y tîm amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau trawsnewid llwyddiannus a galluogi canlyniadau cadarnhaol.

Dylai eich nodiadau achos fod ar ffurf cyflwyniad a dylent gynnwys nodiadau ysgrifenedig manwl i ddangos tystiolaeth o'r canlynol yn glir:

(a) Esboniad o'r ffactorau a gyfrannodd at risg yr unigolyn o ddioddef cam-drin a'i esgeuluso yn y gorffennol. [20 marc]	
Band	AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol
5	<p style="text-align: center;">17-20 marc</p> <p>Ymateb ardderchog sy'n rhoi esboniad manwl a chydlynol o'r ffactorau a gyfrannodd at risg yr unigolyn o gael ei gam-drin a'i esgeuluso yn y gorffennol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr sydd wedi'u cymhwyso'n gyson at gyd-destun y dasg.</p>
4	<p style="text-align: center;">13-16 marc</p> <p>Ymateb da sy'n rhoi esboniad cynhwysfawr o'r ffactorau a gyfrannodd at risg yr unigolyn o gael ei gam-drin a'i esgeuluso yn y gorffennol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sydd wedi'u cymhwyso at gyd-destun y dasg.</p>
3	<p style="text-align: center;">9-12 marc</p> <p>Ymateb boddhaol sy'n rhoi esboniad cymwys o'r ffactorau a gyfrannodd at risg yr unigolyn o gael ei gam-drin a'i esgeuluso yn y gorffennol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn sydd wedi'u cymhwyso at gyd-destun y dasg ar y cyfan.</p>
2	<p style="text-align: center;">5-8 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n rhoi esboniad cyffredinol o'r ffactorau a gyfrannodd at risg yr unigolyn o gael ei gam-drin a'i esgeuluso yn y gorffennol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol gywir sydd wedi'u cymhwyso'n rhannol at gyd-destun y dasg.</p>
1	<p style="text-align: center;">1-4 marc</p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n rhoi esboniad arwynebol o'r ffactorau a gyfrannodd at risg yr unigolyn o gael ei gam-drin a'i esgeuluso yn y gorffennol.</p> <p>Gall yr ymateb fod ar ffurf rhestr gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig nad ydynt wedi'u cymhwyso fawr ddim at gyd-destun y dasg.</p>
	<p>0 marc</p> <p>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>

(b) Amlinellwch unrhyw risgiau presennol o gam-drin ac esgeuluso y bydd angen eu cyfleu i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r tîm amlddisgyblaethol. [5 marc]	
Band	AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol
3	<p style="text-align: center;">5 marc</p> <p>Ymateb da iawn sy'n amlinellu'n glir y risgiau presennol o gam-drin ac esgeuluso y dylid eu cyfleu i'r tîm amlddisgyblaethol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos amrywiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gywir sy'n berthnasol i ofynion y dasg.</p>
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <p>Ymateb da sy'n amlinellu risgiau priodol o gam-drin ac esgeuluso y dylid eu cyfleu i'r tîm amlddisgyblaethol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn sy'n berthnasol i ofynion y dasg.</p>
1	<p style="text-align: center;">1-2 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n amlinellu rhai risgiau presennol o gam-drin ac esgeuluso y dylid eu cyfleu i'r tîm amlddisgyblaethol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n berthnasol i ofynion y dasg.</p> <p>Gall rhai o'r risgiau a nodwyd fod yn berthnasol i unigolion sy'n wynebu risg yn gyffredinol yn hytrach na'r unigolyn penodol yn y proffil.</p>
	<p>0 marc</p> <p>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>

<p>(c) Disgrifiad o ffactorau perthnasol a all fod wedi effeithio ar hawliau'r unigolion sy'n wynebu risg wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gorffennol.</p> <p>Byddwch yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â hawliau unigolion a gawsoch drwy gwblhau <i>Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes.</i></p> <p style="text-align: right;">[10 marc]</p>	
Band	<i>AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol</i>
4	<p style="text-align: center;">8-10 marc</p> <p>Ymateb ardderchog sy'n rhoi disgrifiad manwl a chydlynol o ffactorau perthnasol a effeithiodd ar hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gorffennol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chywir sy'n berthnasol i ofynion y dasg.</p>
3	<p style="text-align: center;">5-7 marc</p> <p>Ymateb da sy'n rhoi disgrifiad cynhwysfawr o ffactorau perthnasol a effeithiodd ar hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gorffennol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos amrywiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gywir sy'n berthnasol i ofynion y dasg.</p>
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n rhoi disgrifiad cyffredinol o ffactorau perthnasol a effeithiodd ar hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gorffennol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth gywir sy'n berthnasol i ofynion y dasg.</p>
1	<p style="text-align: center;">1-2 marc</p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n rhoi disgrifiad arwynebol o ffactorau perthnasol a effeithiodd ar hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gorffennol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig sy'n rhannol berthnasol i ofynion y dasg.</p>
	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p style="text-align: center;">Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>

(ch) Esboniad o'r ffactorau perthnasol presennol a all effeithio ar allu'r unigolyn i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol. [13 marc]	
Band	<i>AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol</i>
4	<p style="text-align: center;">11-13 marc</p> <p>Ymateb ardderchog sy'n rhoi esboniad manwl a chydlynol o ffactorau perthnasol presennol a all effeithio ar allu'r unigolyn i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chywir sy'n berthnasol i ofynion y dasg.</p>
3	<p style="text-align: center;">8-10 marc</p> <p>Ymateb da sy'n rhoi esboniad cynhwysfawr o ffactorau perthnasol presennol a all effeithio ar allu'r unigolyn i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos amrywiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gywir sy'n berthnasol i ofynion y dasg.</p>
2	<p style="text-align: center;">4-7 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n rhoi esboniad cyffredinol o ffactorau perthnasol presennol a all effeithio ar allu'r unigolyn i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth gywir sy'n berthnasol i ofynion y dasg.</p>
1	<p style="text-align: center;">1-3 marc</p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n rhoi esboniad arwynebol o ffactorau perthnasol presennol a all effeithio ar allu'r unigolyn i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig sy'n rhannol berthnasol i ofynion y dasg.</p>
	<p>0 marc</p> <p>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>

(d) Awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gall y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a nodwyd yn y proffil, a'r gwasanaeth a gaiff eu darparu ganddynt, hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer yr unigolyn sy'n wynebu risg. [18 marc]	
Band	AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol
5	<p style="text-align: center;">16-18 marc</p> <p>Ymateb ardderchog sy'n rhoi awgrymiadau manwl a chydlynol o ffyrdd y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y proffil ddarparu gwasanaethau a hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer yr unigolyn sy'n wynebu risg. Bydd yr ateb yn eang ei gwmpas.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr sydd wedi'u cymhwyso'n gyson at gyd-destun y dasg.</p>
4	<p style="text-align: center;">12-15 marc</p> <p>Ymateb da sy'n rhoi awgrymiadau cynhwysfawr o ffyrdd y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y proffil ddarparu gwasanaethau a hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer yr unigolyn sy'n wynebu risg.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sydd wedi'u cymhwyso at gyd-destun y dasg.</p>
3	<p style="text-align: center;">8-11 marc</p> <p>Ymateb boddhaol sy'n rhoi awgrymiadau cymwys o ffyrdd y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y proffil ddarparu gwasanaethau a hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer yr unigolyn sy'n wynebu risg.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn sydd wedi'u cymhwyso at gyd-destun y dasg gan mwyaf.</p>
2	<p style="text-align: center;">4-7 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n rhoi awgrymiadau cyffredinol o ffyrdd y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y proffil ddarparu gwasanaethau a hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer yr unigolyn sy'n wynebu risg.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol gywir sydd wedi'u cymhwyso'n rhannol at gyd-destun y dasg.</p>
1	<p style="text-align: center;">1-3 marc</p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n rhoi awgrymiadau cyffredinol arwynebol o ffyrdd y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y proffil ddarparu gwasanaethau a hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer yr unigolyn sy'n wynebu risg.</p> <p>Gall yr ymateb fod ar ffurf rhestr a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig nad ydynt wedi'u cymhwyso fawr ddim at gyd-destun y dasg, er enghraifft mae'n bosibl na fydd fawr ddim cyfeiriad at y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y proffil na'r unigolyn, os o gwbl.</p>
	<p>0 marc</p> <p>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>

Tasg 2

Fel unigolyn sy'n wynebu risg mawr, mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol yn diogelu ac yn amddiffyn yr unigolyn sy'n wynebu risg. *Er mwyn gwneud hyn, a chefnogi PB i symud ymlaen yn llwyddiannus, bydd angen i chi lunio gwybodaeth i'w chyfrannu at gynllun gofal a chymorth personol er mwyn ei helpu drwy'r cyfnod pontio a hwyluso canlyniadau llwyddiannus.*

Rhaid i'r wybodaeth gynnwys:

(a) Archwiliad o'r ffordd y mae deddfwriaeth a chodau ymddygiad/ymarfer perthnasol yn diogelu ac yn amddiffyn yr unigolyn sy'n wynebu risg	
Band	[16 marc]
4	<p style="text-align: center;">14-16 marc</p> <p>Ymateb ardderchog sy'n rhoi archwiliad manwl a chraff sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfeirio'n glir ac yn gywir at ddeddfwriaeth a chodau ymddygiad/ymarfer perthnasol • dangos dealltwriaeth hyderus o'r ffordd y mae deddfwriaeth a chodau ymddygiad/ymarfer yn diogelu ac yn amddiffyn yr unigolyn sy'n wynebu risg. <p>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyson a phriodol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol.</p>
3	<p style="text-align: center;">10-13 marc</p> <p>Ymateb da sy'n rhoi archwiliad cynhwysfawr sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfeirio'n briodol at ddeddfwriaeth a chodau ymddygiad/ymarfer perthnasol • dangos dealltwriaeth resymol o'r ffordd y mae deddfwriaeth a chodau ymddygiad/ymarfer yn diogelu ac yn amddiffyn yr unigolyn sy'n wynebu risg. <p>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyson a phriodol, gan mwyaf, yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol ar y cyfan.</p>
2	<p style="text-align: center;">6-9 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n rhoi archwiliad rhannol sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfeirio i ryw raddau at ddeddfwriaeth a chodau ymddygiad/ymarfer • dangos gwybodaeth gyffredinol o'r ffordd y mae deddfwriaeth a chodau ymddygiad/ymarfer yn diogelu ac yn amddiffyn yr unigolyn sy'n wynebu risg. <p>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o sgiliau dadansoddi a gwerthuso'n cael eu defnyddio ond mae'n bosibl nad yw'n ddigon manwl gywir.</p>
1	<p style="text-align: center;">1-5 marc</p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n rhoi archwiliad arwynebol sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfeirio mewn ffordd gyfyngedig, os o gwbl, at ddeddfwriaeth a/neu godau ymarfer • dangos fawr ddim gwybodaeth am y ffordd y mae deddfwriaeth neu god ymddygiad neu ymarfer yn diogelu ac yn amddiffyn yr unigolyn sy'n wynebu risg.

	Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig yn cael eu defnyddio heb fawr ddim cymhwysedd os o gwbl.
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

(b) Asesiad o'r ffordd y gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol ddiogelu unigolion a'r ffordd y gellir defnyddio dulliau i sicrhau hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg. [18 marc]	
Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, gan gynnwys unrhyw ddylanwad ar ymarfer, gan ffurfio barn resymegol a dod i gasgliadau.
5	<p style="text-align: center;">16-18 marc</p> <p>Ymateb ardderchog sy'n rhoi asesiad manwl a llawn perswâd o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut y gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol ddiogelu unigolion • sut y gellid defnyddio dulliau i sicrhau hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg. <p>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi/gwerthuso cyson a phriodol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol.</p>
4	<p style="text-align: center;">12-15 marc</p> <p>Ymateb da sy'n rhoi asesiad cynhwysfawr a pherthnasol o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut y gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol ddiogelu unigolion • sut y gellid defnyddio dulliau i sicrhau hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg. <p>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyson, gan mwyaf, yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol ar y cyfan.</p>
3	<p style="text-align: center;">8-11 marc</p> <p>Ymateb boddhaol sy'n rhoi asesiad cymwys o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut y gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol ddiogelu unigolion • sut y gellid defnyddio dulliau i sicrhau hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg. <p>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cadarn yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol.</p>
2	<p style="text-align: center;">4-7 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n rhoi asesiad rhannol o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut y gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol ddiogelu unigolion • sut y gellid defnyddio dulliau i sicrhau hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg. <p>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o sgiliau dadansoddi/gwerthuso'n cael eu defnyddio, ond mae'n bosibl nad yw'n ddigon manwl gywir.</p>
1	<p style="text-align: center;">1-3 marc</p> <p>Ymateb cyfyngedig nad yw'n rhoi rhyw lawer o asesiad o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut y gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol ddiogelu unigolion • sut y gellid defnyddio dulliau i sicrhau hawliau'r unigolyn sy'n wynebu risg <p>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi/gwerthuso cyfyngedig yn cael eu defnyddio heb fawr ddim cymhwysedd, os o gwbl, a gall ganolbwyntio ar arferion heb asesu sut y gallai'r arferion hyn ddiogelu unigolion sy'n wynebu risg a/neu efallai nad yw'n cyfeirio at yr unigolyn sy'n wynebu risg.</p>
	<p>0 marc</p> <p>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>



**Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol:
Egwyddorion a Chyd-destunau**

Asesiad di-arholiad: Uned 5 Tasgau 1 a 2

Enw'r Ymgeisydd:

Rhif yr Ymgeisydd:

Enw'r Ganolfan:

Rhif y Ganolfan:

Asesiad di-arholiad: Uned 5 Tasgau 1 a 2				
Tasgau	Marc Uchaf	Marc y Ganolfan	Marc y Cymedrolwr	Sylwadau'r Ganolfan
Tasg 1				
(a)	20			
(b)	5			
(c)	10			
(ch)	13			
(d)	18			
Tasg 2				
(a)	16			
(b)	18			
Cyfanswm	100			

Aseiad di-arholiad: Sylwadau

I'w gwblhau gan yr unigolyn sy'n goruchwyllo'r aseiad di-arholiad.

Nodwch ble cafodd cymorth y tu hwnt i arweiniad goruchwyllo arferol ei roi a sut mae hyn wedi effeithio ar y marciau a gafodd eu dyfarnu.

Rhestrwch y ffynonellau gwybodaeth a gafodd eu defnyddio wrth ddatblygu'r aseiad di-arholiad

HYSBYSIAD I YMGEISWYR

Rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno i'w asesu fod wedi ei wneud gennych chi.

Os byddwch chi wedi copïo gwaith rhywun arall, wedi caniatáu i ymgeisydd arall gopïo eich gwaith chi, neu wedi twyllo mewn unrhyw ffordd arall, mae'n bosibl y cewch eich diarddel o'r cymhwyster dan sylw o leiaf.

DATGANIAD GAN YR ATHRO

Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gyflawni o dan yr amodau a nodwyd yn y fanyleb.

Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig.

Mae'r ymgeisydd wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rydw i'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.

Llofnod yr athro:

Dyddiad:

DATGANIAD GAN YR YMGEISYDD

Rwyf wedi darllen a deall yr **Hysbysiad i Ymgeiswyr** (uchod).

Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith a atodir heb gymorth, heblaw am y cymorth hwnnw mae fy athro wedi esbonio ei fod yn dderbyniol o fewn y fanyleb.

Yr wyf wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rydw i'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.

Llofnod yr ymgeisydd:

Dyddiad:

Mapio tasgau i gynnwys yr uned a'r amcanion asesu

Tasgau	Cynnwys yr uned					Dyranriad marciau			
	5.1	5.2	5.3	5.4	5.5	Cyfanswm Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
Tasg 1 (a)	✓					20		20	
(b)	✓	✓				5	5		
(c)		✓				10	10		
(ch)		✓				13		13	
(d)					✓	18	18		
Tasg 2 (a)			✓			16			16
(b)				✓		18			18
Cyfanswm						100	33	33	34